Department for Environment Food & Rural Affairs

# Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) y DU: Erthygl 1 Datganiad Cysondeb

Ymgynghoriad ar Ymestyn Dyddiadau Cau Cyflwyno Cofrestriadau Trosiannol REACH y DU 2025

# Cynnwys

Rhagair ........................................................................................................ 3

Cyflwyniad ..................................................................................................... 4

Cyd-destun Polisi .......................................................................................... 4

- Deddf yr Amgylchedd ac Erthygl 1 REACH y DU ....................................... 5
- Iechyd pobl ac iechyd yr amgylchedd .......................................................... 6
- Pwrpas hyrwyddo dewisiadau eraill yn lle profi ar anifeiliaid ..................... 8
- Cylchrediadu rhydd o sylweddau wrth wella cystadleurwydd ac arloesedd ............... 8
- Yr egwyddor mai busnesau sy'n gyfrifol am y cemegau mae'n nhw'n eu defnyddio ac yn eu rhoi ar y farchnad ..................................................................... 8
- Mae REACH y DU yn seiliedig ar yr egwyddor ragofalus ........................... 9

Ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer gwiriadau cydymffurfio .......................... 9

Casgliad ........................................................................................................ 9

## Rhagair

Gwneir y datganiad hwn yn unol â Pharagraff 1 o Atodlen 21 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021[1], sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth arfer y pŵer ym Mharagraff 1(1) o Atodlen 21 i ddiwygio Rheoliad Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) y DU, wneud datganiad ffurfiol yn egluro pam ei fod o'r farn bod y newidiadau arfaethedig yn gyson ag Erthygl 1 o Reoliad REACH y DU (nod a chwmpas).

Rheoliad REACH y DU yw un o'r prif ddarnau o ddeddfwriaeth ar gyfer rheoleiddio cemegau ym Mhrydain Fawr, a ddisodlodd REACH yr UE ym Mhrydain Fawr ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n nodi fframwaith i sicrhau lefel uchel o ddiogelwch ar gyfer iechyd pobl a'r amgylchedd, ar yr un pryd â chefnogi gweithrediad y farchnad ac annog arloesedd a chystadleurwydd yn y sector cemegau.

Mae'r Datganiad Cysondeb hwn yn ymwneud â diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig i ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno cofrestriadau i gofrestrwyr trosiannol o dan REACH y DU. Mae'r datganiad yn egluro, er y bydd ymestyn y dyddiadau cau yn arwain at oedi cyn cyflwyno'r data cofrestru'n llawn, nad oes disgwyl i hyn beryglu gallu cyffredinol fframwaith REACH y DU i gyflawni ei amcanion drwy'r darpariaethau amrywiol yn Erthygl 1. I gefnogi'r casgliad hwn, mae'r datganiad yn gwerthuso effaith bosibl yr estyniadau arfaethedig ar bob elfen berthnasol o Erthygl 1. Mae hefyd yn cydnabod y risgiau cysylltiedig ac yn amlinellu'r mesur sydd ar waith i'w lliniaru.

Mae'r Datganiad Cysondeb hwn yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar gyfer diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig dyddiadau cau cyflwyno cofrestriadau trosiannol REACH y DU, ac mae'n cadarnhau bod y diwygiadau arfaethedig, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn gyson â'r amcanion a nodir yn Erthygl 1 Rheoliad REACH y DU, sef:

- Sicrhau lefel uchel o ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd,
- Hyrwyddo dulliau amgen o asesu peryglon sylweddau,
- Cylchrediad rhydd o sylweddau wrth wella cystadleurwydd ac arloesedd,
- Yr egwyddor mai mater i weithgynhyrchwyr, mewnforwyr a defnyddwyr eilaidd yw sicrhau eu bod yn gweithgynhyrchu, yn rhoi ar y farchnad neu'n defnyddio sylweddau o'r fath nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar iechyd pobl na'r amgylchedd,
- Mae'r darpariaethau sydd ynddo yn seiliedig ar yr egwyddor ragofalus.

Mae'r datganiad yn tanlinellu ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU i sicrhau bod y diwydiant cemegol yn parhau i fod yn rhan hanfodol a chystadleuol o economi'r genedl, gan gyfrannu at arloesedd, cynaliadwyedd a gwydnwch economaidd.

## Cyflwyniad

1. Rheoliad Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) y DU[1] yw un o'r prif ddarnau o ddeddfwriaeth ar gyfer rheoleiddio cemegau ym Mhrydain Fawr, a ddisodlodd REACH yr UE[2] ym Mhrydain Fawr o 31 Rhagfyr 2020 (dyddiad ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE)). Mae REACH y DU yn sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithgynhyrchu, mewnforio, rhoi ar y farchnad, a defnyddio sylweddau cemegol ym Mhrydain Fawr. Mae REACH yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.[3]

2. Mae REACH y DU yn mynnu bod sylweddau sy'n cael eu gweithgynhyrchu ym Mhrydain Fawr, neu sy'n cael eu mewnforio i Brydain Fawr, yn cael eu cofrestru gydag Asiantaeth REACH y DU (yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)). Mae cofrestriadau'n cynnwys gwybodaeth am beryglon, defnydd ac amlygiad y sylwedd. Defnyddir gwybodaeth gofrestru gan yr HSE at ddibenion rheoleiddio a chan y cofrestrwyr i nodi mesurau rheoli risg priodol ar eu cyfer hwy eu hunain a defnyddwyr eraill i lawr y gadwyn gyflenwi.

## Deddf yr Amgylchedd ac Erthygl 1 REACH y DU

3. Mae paragraff 1(1) o Atodlen 21 i Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio Rheoliad REACH y DU. Ni chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer hwn, oni bai ei fod o'r farn bod y diwygiadau'n gyson ag Erthygl 1 o Reoliad REACH y DU, sy'n nodi ei nod a'i gwmpas. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi esboniad ynghylch pam ei fod yn credu bod yr amod hwn wedi'i fodloni. Rhaid cyhoeddi hwn ddim hwyrach na'r adeg pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dechrau'r ymgynghoriad ar arfer y pŵer. Cynhyrchwyd y datganiad hwn i fodloni'r gofyniad hwn, mewn perthynas â diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig i ymestyn dyddiadau cau cofrestru ar gyfer cofrestrwyr trosiannol dan REACH y DU.

## Cyd-destun Polisi

4. Daeth Rheoliad REACH y DU i rym ar 31 Rhagfyr 2020 fel rhan o gategori cyfraith y DU a grëwyd o dan adrannau 2 i 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Roedd yn cynnwys darpariaethau trosiannol i helpu diwydiant i symud o REACH yr UE i REACH y DU. Cafodd cofrestriadau a wnaed o dan weithdrefn yr UE eu trosglwyddo i'r drefn ddomestig, gyda gofyniad i gofrestryddion roi hysbysiad cychwynnol i'r HSE.

5. Mae REACH y DU yn gosod dyletswydd cofrestru newydd ar fewnforwyr cemegau o'r UE (a oedd yn arfer cael eu hystyried yn ddefnyddwyr eilaidd o dan REACH yr UE). Er mwyn helpu i symud i'r drefn ddomestig, mae darpariaethau trosiannol hefyd ar waith ar gyfer y deiliaid dyletswyddau hyn, sydd unwaith eto'n gofyn am hysbysiad cychwynnol

---

[1] Rheoliad (EC) Rhif 1907/2006

[2] EUR 2006/1907

[3] O dan Fframwaith Windsor

i’r HSE. Roedd rhai gwahaniaethau yn yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan y ddau hysbysiad hyn.

6. Mewn perthynas â sylweddau a oedd wedi cael eu cofrestru’n flaenorol gyda REACH yr UE, ac sydd bellach angen cael eu cofrestru gyda REACH y DU, yn 2019[4], pennwyd un dyddiad cau, sef mis Hydref 2021, i gychwyn ar gyfer cwblhau’r broses gofrestru drosiannol. Cafodd hyn ei ddisodli’n ddiweddarach yn 2020 gan ddull gweithredu fesul cam, gyda dyddiadau cau newydd[5] ym mis Hydref 2023, mis Hydref 2025 a mis Hydref 2027, yn dibynnu ar fandiau tunelledd a phroffil peryglon sylweddau.

7. Mewn ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynghylch y costau sy’n gysylltiedig â chaffael y data sydd ei angen ar gyfer y cofrestriadau hyn o dan REACH y DU, cafodd y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno cofrestriadau trosiannol eu hymestyn[6] yn 2023 i roi amser i’r llywodraeth ddatblygu model cofrestru trosiannol amgen (ATRm), i ddeddfu ar gyfer y model cofrestru newydd hwn, ac i roi cyfnod pontio o ddwy flynedd i’r diwydiant. Nod yr ATRm yw lleihau’r costau i fusnesau o bontio o REACH yr UE i REACH y DU, gan sicrhau lefel uchel o ddiogelwch ar gyfer iechyd pobl a’r amgylchedd.

8. Mae'r llywodraeth bresennol, mewn cydweithrediad â'r llywodraethau datganoledig yn yr Alban a Chymru, yn ystyried y camau nesaf. Gan fod dyluniad manwl yr ATRm yn dal i gael ei adolygu, ni allwn gadarnhau ar hyn o bryd yn union pa wybodaeth y bydd yn rhaid i’r diwydiant ei darparu erbyn y dyddiadau cau cyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl na fydd y gofynion gwybodaeth terfynol yn mynd y tu hwnt i’r rhai a amlinellwyd yn ymgynghoriad ATRm 2024.

9. O ystyried yr ystyriaethau parhaus hyn, ni fydd yn bosibl mwyach i gyflawni’r newidiadau deddfwriaethol i weithredu ATRm cyn y dyddiad cau presennol ar gyfer cyflwyno am y tro cyntaf ym mis Hydref 2026, ynghyd â chyfnod pontio addas. O ganlyniad, mae angen ymgynghori ar ddyddiadau cau diwygiedig ar gyfer cyflwyno ceisiadau trosiannol, sy’n rhoi digon o amser i’r llywodraeth gwblhau’r ATRm ac i’r diwydiant baratoi i gydymffurfio. Y dyddiadau cau newydd arfaethedig sy’n destun ymgynghoriad yw:

   - **Opsiwn 1:** Mis Hydref 2029, mis Hydref 2030, mis Hydref 2031
   - **Opsiwn 2:** Mis Ebrill 2029, mis Ebrill 2031, mis Ebrill 2033
   - **Opsiwn 3:** Mis Ebrill 2029, mis Ebrill 2030, mis Ebrill 2031

10. Opsiwn 1 yw’r opsiwn y mae’r llywodraeth yn ei ffafrio, gan ei fod yn rhoi amser i gwblhau’r gwaith o ddylunio a gweithredu’r ATRm, ac mae’n rhoi cyfnod pontio o tua dwy flynedd i’r diwydiant, o’r dyddiad cwblhau arfaethedig ar gyfer yr ATRm, i baratoi ar gyfer cofrestru. Byddai symud o fwlch o ddwy flynedd i fwlch o flwyddyn rhwng dyddiadau cau yn dal i roi digon o amser i’r diwydiant gasglu a chyflwyno gwybodaeth, gan reoli’r cyfnod cyffredinol cyn i’r rheoleiddwyr dderbyn y data cofrestru cyflawn, yn unol â gofynion cyfreithiol.

[4] Erthygl 127E(2) o REACH y DU
[5] Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2020
[6] Rheoliadau REACH (Diwygio) 2023 Erthygl 127P

11. Yn ogystal, mae angen diwygio'r dyddiadau cau presennol er mwyn cynnal gwiriadau cydymffurfio ychwanegol o dan Erthygl 41 REACH, i adlewyrchu dyddiadau cau arfaethedig y diwydiant ar gyfer cofrestru, er mwyn galluogi'r HSE i wneud y gwiriadau perthnasol ar ôl i'r data trosiannol gael ei gyflwyno. Ni fyddai hyn yn bosibl pe bai'r HSE yn parhau i gydymffurfio â'r dyddiadau cau presennol, gan na fyddai unrhyw ddata wedi cael ei gyflwyno i wirio cydymffurfiad. Nid yw diwygio Erthygl 41 o Reoliad REACH y DU yn atal y diwydiant rhag cyflwyno ffeiliau cyn y dyddiadau cau, na'r HSE rhag cynnal gwiriadau cydymffurfio ar y ffeiliau hynny. Nid yw, ar ei ben ei hun, yn cael effaith sylweddol ar ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd.

12. Mae Erthygl 1 REACH y DU yn ymwneud â nod a chwmpas REACH y DU. Dyma'r nodau a nodir yn Erthygl 1:

- Sicrhau lefel uchel o ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd,
- Hyrwyddo dulliau amgen o asesu peryglon sylweddau,
- Cylchrediad rhydd o sylweddau wrth wella cystadleurwydd ac arloesedd,
- Yr egwyddor mai mater i weithgynhyrchwyr, mewnforwyr a defnyddwyr eilaidd yw sicrhau eu bod yn gweithgynhyrchu, yn rhoi ar y farchnad neu'n defnyddio sylweddau o'r fath nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar iechyd pobl na'r amgylchedd (cyfrifoldeb y cynhyrchydd).
- Mae'r darpariaethau sydd ynddo yn seiliedig ar yr egwyddor ragofalus.

## Cysondeb ag Erthygl 1

*Iechyd pobl a'r amgylchedd*

13. Mae data gwyddonol a data arall a gyflwynir drwy'r broses gofrestru yn chwarae rhan bwysig o ran cyflawni amcanion rheoleiddio REACH y DU. Mae'n darparu'r sail ar gyfer gwiriadau cydymffurfio, gan sicrhau bod y rheini sy'n gweithgynhyrchu, yn mewnforio ac yn defnyddio sylweddau yn cyflawni eu rhwymedigaethau cofrestru o dan ddeddfwriaeth REACH y DU i gyflwyno data addas a chyflawn. Gall hefyd helpu i lywio gallu'r HSE i flaenoriaethu sylweddau ar gyfer craffu rheoleiddiol pellach. Mae'r ddwy agwedd yma'n cyfrannu at sicrhau gwarchodaeth o safon uchel i iechyd pobl a'r amgylchedd.

14. Cafodd y dyddiadau cau ar gyfer cofrestru trosiannol o dan REACH y DU eu hymestyn yn flaenorol yn 2023 i roi amser ychwanegol i'r Llywodraeth ddatblygu model cofrestru newydd ac yna i'r diwydiant baratoi ar gyfer cydymffurfio. Mae'r Llywodraeth nawr yn ymgynghori ar ymestyn y terfynau amser hyn ymhellach, gan gydnabod yr angen i'w cysoni â'r gwaith parhaus o ddatblygu a chyflawni'r ATRm.

15. Byddai estyniad ychwanegol yn ymestyn y cyfnod pan nad oes gan yr HSE wybodaeth gyflawn am y tunelledd uchaf a'r sylweddau mwyaf peryglus. Yn benodol, ni fyddai'r data hwn ar gael am chwe blynedd ychwanegol ar ôl y dyddiad cau fesul cam gwreiddiol, sef mis Hydref 2023. O dan Opsiwn 1, byddai'r bwlch data'n cael ei ymestyn tair blynedd ar gyfer y dyddiad cau cyntaf, gan ostwng i ddwy flynedd ac yna i flwyddyn ar gyfer y bandiau tunelledd diweddarach; o dan Opsiwn 2, byddai'r estyniad yn 2 flynedd a hanner ar draws yr holl fandiau tunelledd. O dan Opsiwn 3, byddai'r estyniad

yn ddwy flynedd a hanner ar gyfer y dyddiad cau cyntaf, gan ostwng i flwyddyn a hanner ac yna chwe mis ar gyfer y dyddiadau cau diweddarach.

16. Gallai'r bylchau data hirach hyn gyfyngu ar allu'r HSE i gyflawni rhai swyddogaethau rheoleiddio, gan leihau effaith gwiriadau cydymffurfio o bosibl, ac oedi cyn nodi sylweddau y mae angen eu gwerthuso ymhellach, a allai arwain at lai o oruchwyliaeth reoleiddiol yn ystod y cyfnod yn y cyfamser. Fodd bynnag, yn ymarferol, ar hyn o bryd mae'r HSE yn dibynnu ar ddata ECHA (yr Asiantaeth Gemegau Ewropeaidd) fel procsi, a bydd yn parhau i wneud hynny yn ystod y bylchau data hirach. Er nad yw'r dull hwn fel arfer yn arwain at oedi, mae'n golygu bod angen gwneud tybiaethau yn absenoldeb data sy'n benodol i Brydain Fawr.

17. Serch hynny, rydym yn credu ei bod yn debygol y bydd unrhyw effeithiau'n gyfyngedig o dan bob un o'r tri opsiwn, ond yn enwedig o dan y dull gweithredu mae'r Llywodraeth yn ei ffafrio (Opsiwn 1). Disgwylir y bydd modd rheoli unrhyw risgiau cysylltiedig, ac y byddant yn dod o fewn lefel dderbyniol o oddefiant rheoleiddiol, gan ganiatáu i REACH y DU gynnal safonau uchel o ran diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd ar yr un pryd â chydbwyso'r effeithiau ymarferol ar ddiwydiant. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar yr ystyriaethau canlynol:

- *Sicrhau bod gwybodaeth REACH yr UE ar gael yn barhaus*
  Yr wybodaeth am gemegau a gofrestrwyd o dan REACH yr UE sydd ar gael i gofrestrwyr yr HSE a Phrydain Fawr. Yn ogystal â'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar gronfa ddata REACH yr UE, bydd y rheini a oedd yn ymwneud â chofrestriadau REACH yr UE yn flaenorol yn gyfarwydd â gwybodaeth sy'n ymwneud â pheryglon, defnydd ac amlygiad. Gan fod gwybodaeth am beryglon yn ymwneud â phriodweddau cynhenid sylwedd, ni ddylai fod gwahaniaeth rhwng casgliadau'r UE a Phrydain Fawr. Disgwylir y gallai gwerth rhywfaint o'r wybodaeth am ddefnydd ac amlygiad leihau dros amser os bydd arferion y diwydiant yn amrywio, ond y bydd yn dal yn ddefnyddiol dros gyfnod y dyddiadau cau estynedig ar gyfer cyflwyno.

- *Mynediad at Daflenni Data Diogelwch sy'n cydymffurfio â REACH yr UE*
  Bydd mewnforwyr ym Mhrydain Fawr sy'n mewnforio sylweddau o'r UE yn parhau i gael Taflenni Data Diogelwch sy'n cydymffurfio â REACH yr UE gan eu cyflenwyr yn yr UE, a fydd yn eu galluogi i nodi a defnyddio mesurau rheoli risg priodol.

- *Mynediad yr HSE at ffynonellau data amgen ac arbenigedd*
  Gall yr HSE barhau i chwilio am ddata rheoli risg o ffynonellau eraill, os oes angen, fel y gwnaeth wrth weithredu fel Awdurdod Cymwys o dan REACH yr UE. Gallai hyn gynnwys galwadau am dystiolaeth a defnyddio data o REACH yr UE a ffynonellau perthnasol eraill a all ddarparu gwybodaeth am beryglon ac amlygiad penodol i Brydain Fawr (e.e. cyfnodolion academaidd). Gallant hefyd ddefnyddio eu profiad a'u harbenigedd sylweddol eu hunain o'u gwaith blaenorol o dan REACH yr UE, ac arbenigedd allanol fel y darperir ar ei gyfer o dan REACH y DU, e.e. o dan Erthygl 77.

- *Mae trefniadau rheoli risg ategol yn dal i fod mewn grym*

Gofynion eraill a fydd yn parhau i fod yn berthnasol i weithgynhyrchwyr a defnyddwyr cemegau, e.e. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 a'r Rheoliad Dosbarthu, Labelu a Phecynnu (CLP).[7]

- *Cyfrifoldebau rheoli risg parhaus y diwydiant*
  Bydd gan y diwydiant ddyletswydd o hyd i ddeall a rheoli risg ar sail ei wybodaeth am y peryglon a'r risgiau cysylltiedig, a chydymffurfiad â threfniadau rheoleiddio eraill.

- *Capasiti a chamau rheoleiddio parhaus yr HSE*
  Bydd gan yr HSE y gallu a'r capasiti o hyd i gyflawni ei rwymedigaethau rheoleiddiol a gwneud penderfyniadau. Mae'r diwydiant yn parhau i gofrestru sylweddau newydd ac mae'r HSE yn cynnal gwiriadau cydymffurfio arnynt, a hefyd yn asesu hysbysiadau eithrio ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu sy'n canolbwyntio ar gynnyrch a phrosesau (PPORDs), yn cynnal gwiriadau cydymffurfio ar sylweddau newydd, ac yn ystyried yr holl gynigion profi. Maent wedi defnyddio Dadansoddiadau o'r Opsiynau Rheoli Rheoleiddiol (RMOAs) i ganfod ac asesu'r risgiau posibl a achosir gan grwpiau sylweddau fel PFAS. Mae'r HSE yn parhau i brosesu ceisiadau am awdurdodiadau sy'n cael eu gyrru gan y diwydiant.

*<u>Pwrpas hyrwyddo dewisiadau eraill yn lle profi ar anifeiliaid</u>*

18. Ni fydd cynhyrchu gwybodaeth drwy ddulliau eraill yn cael ei beryglu drwy ymestyn y dyddiadau cau. Pan fydd cynigion i brofi ar anifeiliaid asgwrn cefn yn cael eu cyflwyno i'r HSE fel rhan o gofrestriadau, bydd yr egwyddor dewis olaf yn parhau i fod yn berthnasol.[8] Yn fwy cyffredinol, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gefnogi defnyddio a datblygu dulliau amgen yn lle defnyddio anifeiliaid mewn gwyddoniaeth. Mae Defra, ynghyd â phartneriaid o sectorau sydd â diddordeb mewn gwyddor anifeiliaid ac ar lefel trawslywodraethol, wrthi'n ymgysylltu â DSIT i ddatblygu'r gwaith o gyhoeddi strategaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu, dilysu a defnyddio dulliau amgen. Mae'n bosibl y bydd y gwaith hwn yn golygu y bydd lleihad pellach wedi bod yn y tebygolrwydd y bydd angen cynnal astudiaethau anifeiliaid pan ddaw'r dyddiadau cau diwygiedig i rym.

*<u>Cylchrediad rhydd o sylweddau wrth wella cystadleurwydd ac arloesedd</u>*

19. Un o brif nodau REACH y DU yw cefnogi cylchrediad parhaus sylweddau cemegol ym Mhrydain Fawr. Cafodd y darpariaethau trosiannol eu cyflwyno i ddiogelu cadwyni cyflenwi presennol a chynnal mynediad at sylweddau hanfodol, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr eilaidd a'r rheini sy'n dibynnu ar fewnforion. Mae'r sylweddau hyn, llawer ohonynt heb eu gweithgynhyrchu ym Mhrydain Fawr, yn chwarae rhan hollbwysig mewn sectorau fel puro dŵr, cynhyrchion fferyllol, gweithrediadau diwydiannol, a

---

[7] Rheoliad (EC) Rhif 1272/2008 ar Ddosbarthu, Labelu a Phecynnu Sylweddau a Chymysgeddau (EUR 2008/1272)

[8] Erthygl 25(1) o REACH y DU

chynhyrchu cynhyrchion glanhau. Mae eu hargaeledd di-dor yn cyfrannu'n sylweddol at ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd.

20. Bydd ymestyn y dyddiadau cau presennol ar gyfer cofrestru yn helpu i gadw mynediad at y sylweddau hanfodol hyn, gan osgoi'r risgiau iechyd, amgylcheddol, economaidd a gweithredol a allai godi yn sgil tarfu ar y cyflenwad. Bydd hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd a hyblygrwydd i fusnesau ymateb i ddatblygiad parhaus yr ATRm, gan leihau'r tebygolrwydd o adael y farchnad a chefnogi cyflenwad parhaus. Mae'r dadansoddiad hwn yn berthnasol i bob un o'r 3 opsiwn.

*Yr egwyddor bod gweithgynhyrchwyr, mewnforwyr a defnyddwyr eilaidd yn gyfrifol am y cemegau maen nhw'n eu cynhyrchu, eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio*

21. Bydd y cyfrifoldeb dros sicrhau nad yw sylweddau'n cael effaith niweidiol ar iechyd pobl na'r amgylchedd yn parhau i fod yng ngofal gweithgynhyrchwyr, mewnforwyr a defnyddwyr eilaidd y sylweddau hyn. Ni fydd ymestyn y terfynau amser presennol yn dileu'r rhwymedigaeth ar fusnesau i sicrhau diogelwch y sylweddau y maent yn eu gweithgynhyrchu, eu rhoi ar y farchnad neu eu mewnforio, drwy basio mesurau rheoli risg a argymhellir a gwybodaeth ddiogelwch arall i lawr y gadwyn gyflenwi.[9] Rhaid i gwmnïau y trosglwyddwyd eu cofrestriadau i'r drefn ddomestig hefyd barhau i lynu wrth eu rhwymedigaethau i ddiweddaru eu cofrestriadau gyda gwybodaeth newydd berthnasol a'i chyflwyno i'r HSE[10].

*Mae REACH y DU yn seiliedig ar yr egwyddor ragofalus*

22. Mae'r egwyddor ragofalus yn dal yn elfen sylfaenol o fframwaith REACH y DU. Mae'n cael ei hadlewyrchu mewn mecanweithiau rheoleiddio allweddol, e.e. cyfrifoldeb y cynhyrchydd, gwerthuso sylweddau, a chyfyngiadau. Fe'i hail-bwysleisiwyd hefyd yn y Datganiad Polisi ar Egwyddorion Amgylcheddol.[11] Bydd ystyried mesurau lleihau risg pan fydd y risg yn ansicr, ond bod perygl sylweddol wedi'i nodi, yn parhau i fod yn berthnasol o dan REACH y DU yn ystod y cyfnod estynedig o gyflwyno data, gan gynnal lefel uchel o ddiogelwch o ran iechyd pobl a'r amgylchedd.

## Casgliad

23. Mae Erthygl 1 o Reoliad REACH y DU yn sefydlu'r amcanion cyffredinol a amlinellir uchod ym mharagraff 12. Mae'r cynnig i ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer cofrestru trosiannol o dan REACH y DU wedi cael ei ddatblygu gyda'r amcanion hyn mewn golwg. Er y bydd estyniad yn arafu'r broses o gyflwyno data cofrestru'n llawn, rydym yn asesu na fydd yn peryglu gallu cyffredinol fframwaith REACH y DU i gyflawni ei nodau diogelu.

24. Er bod data cofrestru'n chwarae rôl sylfaenol o ran cefnogi gweithrediad effeithiol REACH y DU, nid yw'r system reoleiddio'n dibynnu arno'n unig. Yn ystod y cyfnod estynedig, bydd yr HSE yn parhau i ymgymryd â gweithgareddau rheoleiddio allweddol fel gwerthuso, awdurdodi a chyfyngu drwy ddefnyddio ffynonellau data amgen, gan gynnwys gwybodaeth o ECHA, cronfeydd data rhyngwladol, a llenyddiaeth wyddonol.

[9] Erthygl 33 o REACH y DU
[10] Erthygl 22 o REACH y DU
[11] [Papur Polisi]

25. Mae angen ymestyn y terfynau amser yn ymarferol yn ystod datblygiad parhaus yr ATRm. Bydd yn rhoi mwy o sicrwydd a hyblygrwydd i fusnesau ymateb i'r broses honno, gan leihau'r tebygolrwydd o adael y farchnad a chefnogi cyflenwad parhaus, a chyfrannu at y nod o gylchrediad rhydd, arloesedd a chystadleurwydd.

26. Mae'r HSE hefyd yn defnyddio dulliau blaenoriaethu sy'n seiliedig ar risg a dulliau blaenoriaethu eraill, gan gynnwys nodi sylweddau ar gyfer y rhestr ymgeiswyr, defnyddio fflagiau peryglon ac ymgymryd â RMOA. Mae'r mesurau hyn yn helpu i gynnal goruchwyliaeth reoleiddiol hyd yn oed yn absenoldeb data cofrestru cyflawn a gedwir yn y DU, gan sicrhau bod modd nodi a mynd i'r afael â sylweddau risg uwch o hyd.

27. Mae fframwaith REACH y DU yn seiliedig ar yr egwyddor ragofalus, sy'n annog camau gweithredu rheoleiddiol lle ceir tystiolaeth o berygl sylweddol, hyd yn oed yn absenoldeb data cyflawn i ddiffinio'r risg yn llawn. Mae hyn yn sicrhau nad yw diffyg data sy'n benodol i Brydain Fawr yn atal mesurau lleihau risg rhag cael eu defnyddio lle bo angen, neu lle mae ansicrwydd ynghylch lefel y risg. Yn ystod y cyfnod estynedig, bydd yr egwyddor hon yn parhau i lywio penderfyniadau rheoleiddio a chynnal nodau diogelu Erthygl 1.

28. I grynhoi, er y gallai ymestyn y dyddiadau cau oedi mynediad at rywfaint o ddata, mae fframwaith REACH y DU yn cadw ystod eang o adnoddau a mesurau diogelu i gynnal safonau uchel o ddiogelwch. Mae ffynonellau data amgen, dulliau blaenoriaethu amrywiol, yr egwyddor ragofalus, a chamau rheoleiddio parhaus i gyd yn cyfuno i sicrhau bod amcanion Erthygl 1 yn parhau i gael eu cefnogi'n llawn drwy gydol cyfnod yr estyniad o dan unrhyw un o'r opsiynau a gynigir.